

# Papur briffio: Darparu grantiau ffioedd dysgu i gefnogi myfyrwyr meddygaeth sy'n astudio meddygaeth fel ail radd

Y Pwyllgor Deisebau | 04 Hydref 2021  
Petitions Committee | 04 October 2021

Cyfeirnod: SR210837

Rhif y ddeiseb: P-06-1189

Teitl y ddeiseb: Darparu grantiau ffioedd dysgu i gefnogi myfyrwyr meddygaeth sy'n astudio meddygaeth fel ail radd

Geiriad y ddeiseb:

Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau meddygaeth israddedig sydd eisoes wedi astudio gradd gyntaf dalu £9,250 o flaen llaw ar gyfer ffioedd dysgu, sef cyfanswm o £37,000 erbyn dechrau eu pedwaredd flwyddyn astudio.

Mae llawer o fyfyrwyr yn gorfod gweithio swyddi rhan-amser yn ystod eu cwrs heriol, ac mae'n rhaid iddynt ddod o hyd i gymorth allanol. Dylid darparu grantiau ffioedd dysgu i'r myfyrwyr meddygaeth hyn er mwyn atal myfyrwyr rhag peidio â gallu canolbwyntio ar eu hastudiaethau na'u hariannu.



## 1. Cefndir

Gall y rhai sydd am astudio cwrs meddygaeth israddedig gael y **pecyn arferol o gefnogaeth o ran ffioedd dysgu a chostau byw** gan Gyllid Myfyrwyr Cymru am bedair blynedd gyntaf eu cwrs. Yn ystod y bumed flwyddyn a'r blynnyddoedd dilynol maent yn gwneud **cais i'r GIG** am gymorth â ffioedd dysgu a chostau byw a bwrsari gofal iechyd sy'n dibynnu ar brawf modd, ac i Gyllid Myfyrwyr Cymru am y benthyciad cynhaliaeth is.

### 1.1. Rheol y radd gyntaf

Yn y rhan fwyaf o achosion, os oes gan fyfyrwr radd gyntaf o sefydliad yn y DU eisoes, nid yw'n gymwys i gael cyllid myfyrwyr pellach ar gyfer ei ffioedd na'i gostau byw i astudio am ail radd.

Mae **arweiniad Cyllid Myfyrwyr Cymru i ymarferwyr** yn egluro:

Students who hold a first degree cannot access further student support, unless they are topping up a an Ordinary degree or a Foundation Degree to an honours degree.

### 1.2. Eithriad i'r rheol Gradd Gyntaf

Mae'r rheoliadau'n caniatáu ar gyfer **eithriad** os yw'r ail radd israddedig yn radd mewn meddygaeth, ond mae'r eithriad hwn **yn berthnasol i gymorth costau byw yn unig**. Yn yr achosion hyn, **nid** yw myfyrwyr yn gymwys i gael cymorth ffioedd dysgu pellach.

Mae hyn yn golygu, fel y mae'r deisebydd yn nodi, y bydd yn rhaid i'r myfyrwyr hynny hunan-ariannu eu ffioedd dysgu llawn (£9,000 i £9,250) am bedair blynedd gyntaf y cwrs (gallant fod yn gymwys i gael cefnogaeth gan y GIG o'r bumed flwyddyn). Mae'r sefyllfa **yr un fath** yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

### 1.3. Nifer y bobl y mae hyn yn effeithio arnynt

Fe wnaeth tua **360 o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru** gofrestru ar gyfer gradd israddedig meddygaeth yn 2019/20. Nid yw'n hysbys faint o'r rhain oedd yn astudio meddygaeth fel ail radd ac felly nid yw'n bosibl asesu'r effaith ariannol yn sgil cyflwyno'r polisi hwn.

## 1.4. Grantiau ffioedd dysgu

Mae'r ddeiseb yn galw am ddarparu grantiau ffioedd dysgu yn yr achosion perthnasol. Cyn 2018, roedd Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau ffioedd dysgu i fyfyrwyr israddedig newydd fel rhan o'i phecyn cyllid myfyrwyr arferol. Roedd y rhain yn cael eu hariannu gan gyllideb Llywodraeth Cymru. Roedd yr un rheol gradd gyntaf yn berthnasol i grantiau ffioedd dysgu.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.